



Canllaw Polisi Atal Pobl Rhag Gadael a Dod ar Safle  
Mewn ymateb i ganllaw Cloi Mewn Argyfwng Sir Gâr . 9.5.19

Nodyn Cyfarwyddyd 1/2015 y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth  
Genedlaethol (NaCTSO) Datblygu Gweithdrefnau ar gyfer Atal Pobl Rhag  
Gadael a Dod ar Safle yn Ddynamig

### **Beth yw ystyr atal pobl rhag gadael a dod ar safle yn ddynamig?**

Y gallu i fynd ati'n gyflym i gyfyngu ar fynediad i safle neu adeilad (neu ran ohono) a ffyrdd allan ohono yn wyneb bygythiad mewnol neu allanol, a hynny drwy roi mesurau corfforol ar waith. Y nod yw atal pobl rhag symud i ardaloedd peryglus ac atal yr ymosodwyr rhag dod ar safle (neu ran ohono) neu gyfyngu ar eu gallu i wneud hynny. (Oherwydd natur rhai safleoedd, efallai na fydd yn bosibl iddynt wneud hyn).

Yn aml, mae'r rhai sy'n ceisio ymosod yn gwneud llawer o waith cynllunio, gan gynnwys gwaith archwilio gelyniaethus. Achubir ar bob cyfle i nodi ac atal bygythiadau ar adeg cynllunio'r ymosodiad. Byddwn yn sicrhau bod gennym gyflwr diogelwch cryf drwy weithredu mewn modd gweladwy ac effeithiol, er enghraifft drwy godi ymwybyddiaeth staff, rhoi gweithdrefnau adrodd ar waith, defnyddio teledu cylch cyfyng yn effeithlon, cyfathrebu'n ataliol, pennu parthau diogelwch gweithredol a chadw golwg ar yr oedolion hynny nad ydynt yn gyfarwydd i'r ysgol neu sy'n ymddwyn yn rhyfedd.

Mae Ysgol y Dderwen wedi ystyried yr angen am **weithdrefnau cadarn i atal pobl rhag gadael a dod ar y safle**. Mae gweithdrefnau o'r fath yn cael eu hystyried yn ymateb synhwyrol a chymesur i unrhyw ddigwyddiad allanol neu fewnol a all fygwth diogelwch staff a disgyblion yn yr ysgol.

Os nad yw wedi bod yn bosibl atal ymosodiad, gall atal pobl rhag gadael a dod ar y safle rwystro ac oedi'r ymosodwr/ymosodwyr yn ystod yr ymosodiad a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu neu eu lladd i raddau sylweddol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud i atal pobl rhag gadael a dod ar y safle. Bydd cydnabod yr angen i gynlluniau fod yn hyblyg yn achub bywydau.

Byddwn yn gweithredu gweithdrefnau er mwyn atal pobl rhag gadael a dod ar y safle mewn ymateb i nifer o sefyllfaoedd:

- Gweithred Derfysgol
- Digwyddiad/aflonyddwch sifil a adroddwyd amdano yn y gymuned leol (gyda'r potensial o risg i staff a disgyblion yr ysgol)
- Tresmaswr ar safle'r ysgol (gyda'r potensial o risg i staff a disgyblion yr ysgol)
- Tresmaswr yn yr ysgol (gyda'r potensial o risg i staff a disgyblion yr ysgol)
- Derbyn rhybudd am risg lleol, o lygredd aer (mwg, cwmwl nwy, ac ati)
- Tân difrifol yng nghyffiniau'r ysgol
- Anifail peryglus yn rhydd yn agos i'r safle.

Wrth lunio'r polisi yma 'rydym wedi ystyried:

- Sut i atal pobl rhag gadael a dod ar safle yn llwyr neu'n rhannol mewn modd effeithiol
- Sut i roi gwybod i bobl am yr hyn sy'n digwydd
- Hyfforddi ein staff
- Egwyddorion **AROS YN DDIOGEL** sef **RHEDEG** > **CUDDIO** > **DWEUD**.

### **Sut i atal pobl rhag gadael a dod ar safle yn ddynamig**

- Nodi pob ffordd i mewn ac allan o fannau cyhoeddus a phreifat y safle. Mae manau o'r fath yn fwy na drysau a gatiâu yn unig.
- Nodi sut i gau manau o'r fath yn gyflym ac yn gorfforol.
- Nodi sut y gellir rhannu ein safle fel bod modd cyfyngu ar fynediad i fannau penodol.
- Cadarnhau rolau a chyfrifoldebau staff yn y cynlluniau.
- Mae pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant er mwyn gallu gweithredu'n effeithiol, ac mae pob un ohonynt yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Oherwydd natur gyflym digwyddiadau sy'n gofyn atal pobl rhag gadael a dod ar safle, mae'n bwysig bod pob aelod o'n staff yn gallu gweithredu'n gyflym ac yn effeithiol.
- Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio egwyddorion **'Aros yn Ddiogel'**.

### **'Aros yn Ddiogel' yn ystod ymosodiad arfau neu arfau tanio**

Mae egwyddorion 'Aros yn Ddiogel' (Rhedeg, Cuddio, Dweud) yn rhoi rhai camau syml i'w hystyried yn ystod digwyddiad a'r wybodaeth y gall fod angen i swyddogion arfog ei gwybod os bydd ymosodiad arfau neu arfau tanio. Mae arweiniad llawn ar wefan NaCTSO

<https://www.gov.uk/government/publications/recognising-the-terrorist-threat>

## **Rhedeg**

- Dylech ddianc os gallwch wneud hynny.
- Dylech ystyried yr opsiynau mwyaf diogel.
- A oes llwybr diogel? Os na allwch REDEG, dylech GUDDIO.
- A allwch wneud hynny heb wynebu mwy o berygl?
- Mynnwch fod eraill yn gadael gyda chi.
- Gadewch eiddo ar ôl.

## **Cuddio**

- Os na allwch REDEG, dylech GUDDIO.
- Chwiliwch am gysgod rhag ymosodiad gan arfau tanio.
- Os gallwch weld yr ymosodwr, mae'n bosibl ei fod yn gallu eich gweld chi.
- Nid yw bod allan o'r golwg yn golygu eich bod yn ddiogel. Mae bwledi yn mynd drwy wydr, brics, pren a metel.
- Chwiliwch am gysgod rhag ymosodiad gan arfau tanio e.e. bricwaith sylweddol / waliau cydnerthedig trwchus.
- Byddwch yn ymwybodol o'ch allanfeydd.
- Ceisiwch beidio â chael eich trapio. o Byddwch yn dawel. Rhowch eich ffôn yn y modd distaw.
- Clowch / codwch faricêd o'ch blaen.
- Symudwch i ffwrdd o'r drws.

## **Dweud**

- Ffoniwch 999 – Beth sydd angen i'r heddlu ei wybod?
- Lleoliad – Ble mae'r bobl a ddrwgdybir?
- Cyfeiriad – Ble y gwelsoch chi'r bobl a ddrwgdybir ddiwethaf?
- Disgrifiadau – Disgrifiwch yr ymosodwr, niferoedd, sut mae'n edrych, dillad, arfau ac ati.
- Rhagor o wybodaeth – Nifer y bobl sydd wedi'u hanafu neu eu lladd, y mathau o anafiadau, gwybodaeth am yr adeilad, mynedfeydd, allanfeydd, gwystlon ac ati.
- Dylech atal pobl eraill rhag dod i mewn i'r adeilad os yw'n ddiogel gwneud hynny.

## **Os bydd ymateb arfog gan yr heddlu**

- Dilynwch gyfarwyddiadau'r swyddogion.
- Peidiwch â chynhyrfu.
- A allwch symud i fan mwy diogel?
- Osgowch unrhyw symudiadau sydyn a all gael eu hystyried yn fgythiad.

- Cadwch eich dwylo mewn golwg.

### **Rydym yn ymwybodol y gall swyddogion wneud y canlynol**

- Pwyntio gynnu atoch.
- Eich trin yn gadarn.
- Eich cwestiynu.
- Ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhyngoch chi a'r ymosodwr.
- Bydd swyddogion yn caniatáu i chi adael pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

### **Mae'n rhaid i chi AROS YN DDIOGEL**

- Beth yw'r cynlluniau lleol? e.e. cynllun personol gadael mewn argyfwng.
- Mae pobl yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt a beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Caiff dealltwriaeth staff ei chadarnhau'n flynyddol.
- Profi ac yn ymarfer cynlluniau gyda staff yn rheolaidd (bob blwyddyn).
- Mae'n rhaid bod hyfforddiant gloywi a hyfforddiant newydd ar gael i staff yn rheolaidd.

I gael rhagor o gyngor ac arweiniad, ewch i wefan NaCTSO:

[www.nactso.gov.uk](http://www.nactso.gov.uk)

- Nodi, lle y bo'n bosibl, sut i atal pobl rhag gadael neu ddod ar y safle a sut i gyfeirio pobl i ffwrdd o berygl.
- Ystyried prosesau diogelu er mwyn cloi pob drws mewnol. Prosesau i fod yn ddigon hyblyg i ategu ac ymdopi â'r angen i gyfyngu pobl mewn man penodol a chaniatáu iddynt adael.
- Ar safle cymunedol, rhaid ystyried dulliau cyfathrebu rhwng pob ardal a gweithio â'r safleoedd/ardaloedd o amgylch er lles ymwybyddiaeth sefyllfaol ac adeiladu llinellau cyfathrebu effeithiol.
- Bod â chynlluniau manwl o safle'r ysgol, e.e. dyluniad adeiladau a'u hagoswydd i'w gilydd.

### **Sut y byddwn yn rhoi gwybod i bobl am yr hyn sy'n digwydd**

Mae sawl opsiwn ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys;

- System sain
- Systemau mewnol presennol i anfon negeseuon; negeseuon testun, e-byst, ffonau staff ac ati
- Ffenestr naid ar gyfrifiaduron cyflogeion / systemau mewnol i anfon negeseuon

- Tôn larwm bwrpasol i ddynodi y dylid atal pobl rhag gadael a dod ar y safle
- Ar lafar

**Noder: Bydd y defnydd o larymau tân yn cael ei osgoi lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau nad oes ymateb anghywir i ddigwyddiad.**

- Defnyddio system cloch yr ysgol i seinio'r larwm mewn argyfwng;
- Defnyddio dulliau eraill o gyfathrebu'n fewnol – rhaglenni gwibnegeseuon, ffonau symudol, negeseuon testun ac ati;
- Cynllun o safle'r ysgol e.e. cynllun yr adeiladau a pha mor agos ydynt at ei gilydd.

**Gweithdrefn**

- Gellir rhoi gwybod i'r staff bod y weithdrefn i atal pobl rhag gadael a dod ar y safle yn cael ei rhoi ar waith drwy roi arwydd cydnabyddedig a fydd yn glywadwy ym mhob rhan o'r ysgol (gan fod ysgolion yn cael eu hannog i beidio â defnyddio larymau tân, mae defnyddio'r uwchseinydd (os oes un ganddynt) i roi neges god yn arfer da, er enghraifft "A all Mrs Smith gysylltu â'r Brif Dderbynfa?" neu, os yw'r weithdrefn wedi'i rhoi ar waith yn rhannol, pa ran bynnag o'r safle y mae'n ymwneud â hi. Mae hon yn broses sydd wedi'i thrwytho mewn sefydliadau mawr).

**Mae angen ffonio'r heddlu ar 999 cyn gynted â phosibl, ar ffôn symudol os yw'n bosibl er mwyn iddynt allu eich ffonio'n ôl.**

- Rhaid dod â disgyblion sydd y tu allan i adeiladau'r ysgol i mewn cyn gynted â phosibl.
- Dylai'r rhai sydd y tu mewn i'r ysgol aros yn eu hystafelloedd dosbarth, oni chânt gyfarwyddiadau gwahanol gan staff neu'r heddlu.
- Pan fo'n ddiogel gwneud hynny, bydd pob drws allanol a, lle y bo angen, y ffenestri yn cael eu cloi (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall fod angen cloi drysau ystafelloedd dosbarth mewnol hefyd).

Pan fydd yr holl fesurau ar waith i atal pobl rhag gadael a dod ar y safle, dylai staff roi gwybod i'r swyddfa yn syth pa ddisgyblion sydd ar goll (ac, os yw'n ddiogel gwneud hynny, chwilio amdanynt ar unwaith).

- Dylai staff annog y disgyblion i beidio â chynhyrfu;
- Fel y bo'n briodol, dylai'r ysgol gysylltu â'r Gwasanaethau Brys cyn gynted â phosibl;
- Dylid rhoi gwybod i Gyngor Sir Gâr drwy ffonio'r llinell Argyfwng Ysgol;

- Os bydd angen, dylid rhoi gwybod i'r rhieni cyn gynted ag sy'n ymarferol drwy system gyfathrebu sefydledig yr ysgol;
- Ni fydd disgyblion yn cael eu rhyddhau i'w rhieni tra bo'r weithdrefn ar waith;
- Os bydd angen gadael yr adeilad, bydd y larwm tân yn cael ei seinio; Dylai staff aros am gyfarwyddiadau pellach.
- Ar ôl cael eu neges, mae angen i athrawon wybod beth yn union a ddisgwylir ganddynt.

Mae'n hollbwysig bod aelodau o'r uwch dîm rheoli, gweinyddwyr yr ysgol, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu yn gyfarwydd â gweithdrefn yr ysgol. I sicrhau hyn, dylid cynnal ymarfer o leiaf unwaith y flwyddyn.

Dylai disgyblion fod yn ymwybodol o'r weithdrefn hefyd (bydd ymarferion rheolaidd yn eu galluogi i ddod yn fwy cyfarwydd â hi). Dylai'r rhieni hefyd wybod bod gan yr ysgol weithdrefn o'r fath, a dylid rhoi copi ar wefan yr ysgol. Arddangos gwybodaeth am ymarferion atal pobl rhag gadael a dod ar y safle ym mhob ystafell ddosbarth ynghyd â gwybodaeth am ymarferion tân.

**Ni ddylai'r wybodaeth hon roi gwybodaeth i'r rheini gyda bwriadau gelyniaethus.**

## **Trefniadau**

### **Atal Pobl Rhag Gadael a Dod ar y Safle yn Rhannol Rhybudd i staff:**

'Atal pobl rhag gadael a dod ar y safle yn rhannol' Gall hyn fod o ganlyniad i ddigwyddiad/aflonyddwch sifil yn y gymuned leol a allai beri risg i staff a disgyblion yn yr ysgol. Gall hefyd fod o ganlyniad i rybudd am y risg o lygredd aer ac ati.

### **Camau i'w cymryd ar unwaith:**

- Rhaid i ddisgyblion a staff ddod â'u gweithgareddau y tu allan i ben ar unwaith a dychwelyd i'r adeilad;
- (Mae ffordd o rybuddio staff sydd ar ddyletswydd yn ystod amser egwyl)
- Rhaid i bob aelod o staff a phob disgybl aros yn yr adeilad, a rhaid cloi drysau allanol a ffenestri;
- Gellir caniatáu i bobl symud yn rhydd o fewn yr adeilad, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

**Mae pob sefyllfa'n wahanol.**

Pan fydd pob aelod o staff a phob disgybl yn ddiogel y tu mewn, uwch aelodau o staff i gynnal asesiad risg parhaus a dynamig yn seiliedig ar gyngor gan ddarparwr lechyd a Diogelwch yr ysgol/y Gwasanaethau Brys. Wedyn, gellir cyfleu hyn i staff a disgyblion. Mae atal pobl rhag gadael a dod ar y safle yn rhannol yn fesur rhagofalus ond mae'n paratoi'r ysgol (ac yn cadw rhywfaint o normalrwydd) os bydd y sefyllfa'n gwaethygu. Os bydd problem llygredd aer, gellir cau awyrdyllau (lle y bo'n bosibl) fel rhagofal ychwanegol. Bydd y Gwasanaethau Brys yn awgrymu'r ffordd orau o weithredu mewn perthynas â'r bygythiad cyfredol.

## **Atal Pobl Rhag Gadael a Dod ar y Safle yn Llawn**

**Rhybudd i staff:** 'Atal pobl rhag gadael a dod ar y safle yn llawn'

Mae hyn yn dynodi bygythiad uniongyrchol i'r ysgol a gellir symud ymlaen i'r weithdrefn hon o'r weithdrefn rannol.

### **Camau i'w cymryd ar unwaith:**

- Rhaid i bob disgybl ddychwelyd i'w ystafell ddosbarth, ystafell hyfforddi neu leoliad arall y cytunwyd arno e.e. neuadd chwaraeon/gynnull/fwyta;
- Rhaid cloi pob drws allanol. Rhaid cloi drysau ystafelloedd dosbarth (pan fo aelod o staff â'r allweddau yn bresennol). Rhaid cloi'r ffenestri, cau'r bleindiau a rhaid i ddisgyblion eistedd yn dawel allan o'r golwg (e.e. o dan ddesg neu rownd y gornel);
- Rhaid galw'r gofrestr – bydd y swyddfa, os yw'n bosibl, yn cysylltu â phob dosbarth yn ei dro i gael gwybod pwy sy'n bresennol;
- Rhaid i staff a disgyblion aros yn eu lle nes y bydd uwch aelod o staff/y Gwasanaethau Brys yn dweud fel arall. **Ar unrhyw adeg, gall y larwm tân gael ei seinio sy'n arwydd i adael yr adeilad.**
- Bydd y staff a'r disgyblion yn dilyn yr egwyddorion DIANC (RHEDEG)/CUDDIO/DWEUD bob amser.

Pan fydd y weithdrefn ar waith, bydd staff yn cadw mewn cysylltiad drwy'r dulliau y cytunwyd arnynt, ond ni fyddant yn gwneud galwadau diangen i'r swyddfa ganolog gan y gallai hyn oedi'r broses o anfon negeseuon pwysicach.

Dyma enghreifftiau o sianeli cyfathrebu disylw:

- Pan fo gan staff fynediad at system e-bost fewnol, gallent ddefnyddio eu cyfrif ac aros am gyfarwyddiadau pellach. Yn ymarferol, byddai angen i staff fod yn gyfarwydd â defnyddio eu cyfrif

ar sawl dyfais e.e. gliniadur, ffôn deallus neu lechen; • Galwad grŵp – dylai staff gael eu rhoi mewn grŵp defnyddwyr penodedig. Dylai hwn gael ei ddefnyddio i gyfleu cyfarwyddiadau drwy negeseuon testun mewn argyfwng.

### **Trefniadau cyfathrebu rhwng rhieni a'r ysgol**

Bydd gweithdrefnau'r ysgol i atal pobl rhag gadael a dod ar y safle, yn arbennig y trefniadau ar gyfer cyfathrebu â rhieni, yn cael eu rhannu'n rheolaidd â'r rhieni naill ai drwy gylchlythyr neu drwy wefan yr ysgol.

Os bydd angen rhoi'r gweithdrefnau ar waith, argymhellir yn gryf bod unrhyw ddigwyddiad neu ddatblygiad yn cael ei gyfleu i rieni cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Mae'n amlwg y bydd rhieni'n pryderu, ond bydd cyfleu'r wybodaeth gywir iddynt yn rheolaidd yn helpu.

### **Dylid rhoi digon o wybodaeth i rieni am yr hyn a fydd yn digwydd er mwyn:**

- Rhoi sicrwydd iddynt fod yr ysgol yn deall eu pryderon am les eu plentyn, a'i bod yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau ei ddiogelwch;
- Sicrhau nad oes angen iddynt gysylltu â'r ysgol. Gallai ffonio'r ysgol olygu bod y llinellau ffôn sydd eu hangen i gysylltu â darparwyr brys yn brys;
- Sicrhau nad ydynt yn dod i'r ysgol. Gallent rwystro mynediad darparwyr brys at yr ysgol a hyd yn oed roi eu hunain ac eraill mewn perygl;
- Sicrhau eu bod yn aros i'r ysgol gysylltu â nhw er mwyn dweud pryd mae'n ddiogel iddynt ddod i'r ysgol a chasglu eu plant, a ble.

**Bydd y rhan o'r cynllun sy'n trafod cyfathrebu â rhieni yn rhoi sicrwydd iddynt fod yr ysgol yn deall eu pryderon am les eu plant ac y bydd popeth y gellir ei wneud i sicrhau diogelwch plant yn cael ei wneud. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn ddoeth aildweud bod "... pobl yn cael eu hatal rhag gadael a dod ar safle'r ysgol. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd unrhyw un yn ateb y switsfwrdd neu i'w weld wrth y mynedfeydd. Bydd drysau allanol wedi'u cloi ac ni fydd unrhyw un yn cael gadael na dod i mewn ..."**

### **Gwasanaethau Brys**

Mae'n bwysig cadw llinellau cyfathrebu ar agor gyda'r Gwasanaethau Brys gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i gynnig cyngor wrth i sefyllfa fynd rhagddi. Efallai y caiff neu na chaiff safle'r ysgol ei ynysu gan y Gwasanaethau Brys yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad sydd wedi arwain at roi'r weithdrefn ar waith.



Bydd y Gwasanaethau Brys yn cefnogi penderfyniad y Pennaeth ynghylch pryd i gyfathrebu â'r rhieni.

<https://www.gov.uk/government/organisations/national-counter-terrorism-security-office>

NaCTSO (Y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol)

Os bydd angen atal pobl rhag gadael a dod ar y safle am gyfnod estynedig, neu os bydd senario mwy difrifol yn codi, gall yr Awdurdod Lleol roi cymorth.